

# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

## LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*  
**Bethan Roberts**  
Rhif Ffôn: 01248 602131  
Ebost: [CyngorLlandygai@ogwen.org](mailto:CyngorLlandygai@ogwen.org)

26 Stryd Fawr  
Bethesda  
Gwynedd  
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol (Cyfarfod Rhithiol) o'r Cyngor a gynhaliwyd ar

**Nos Iau 15 Ebrill 2021 am 18.30**

*Oherwydd Covid-19 cynhaliwyd y cyfarfod drwy ddefnyddio Zoom*

### PRESENNOL:

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Mary Hayes

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Mair Pierce Owen

Y Cynghorydd Richard Fraser-Williams

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Gabrielle Wyn

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Lowri Jones

Y Cynghorydd David H Roberts

**1. Croesawyd** pawb i'r cyfarfod rhithiol gan y Cadeirydd, Cyng. Iwan Hywel.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Gwen Griffith a Sian Beidas.

### 2. Cofnodion

**Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2021.

### 3. Materion yn codi o'r cofnodion

**3.1** Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig – Y Clerc wedi hysbysu'r trigolion lleol drwy cynnwys y manylion yma ar cyfryngau cymdeithasol a Llais Ogwan. Y Clerc i ofyn wrth Cyngor Gwynedd am ddiweddariad.

**3.2** Llecyn Tir, Bont Twr – Wedi derbyn ymateb gan Jo Davies, Rheolwr Ystadau Breedon Group. Mae'r mater bellach yn nwylo cyfreithwyr, a bydd yn ymateb pan fydd hi'n cael diweddariad.

**3.3** Gyli ym Mhentref Llandygai – Cadarnhawyd fod Cyngor Gwynedd wedi gosod hwn ar eu rhaglen waith ac yn gobeithio gweithredu yn fuan iawn. Dim diweddariad hyd yn hyn.

**3.4** Mynediad i Lon Las Ogwen ger Garej Pandy – Mae'r bolard bellach wedi gael ei osod, ond nid yw'r bolard yn yn weladwy iawn. Cyng. Dafydd Owen wedi codi'r mater gyda Cyngor Gwynedd. Y Clerc wedi cysylltu eto, ond dim ymateb hyd yn hyn.

**3.5** 'Knotweed' ger y Parc yn Mynydd Llandegai – Cyng. Dafydd Owen i drafod y mater gyda'r perchennog.

- 3.6** Llwybr Rhif 3 – swyddog llwybrau wedi ymateb i gadarnhau bydd arwyddion a giataiau newydd yn cael ei rhoid ar y llwybr. Cyng. Dafydd Owen i gael diweddariad.
- 3.7** Arhosfan bws ger Pant yr Ardd – Llinellau wedi gael ei marcio, y Clerc i ddiolch i Gyngor Gwynedd a gofyn os oes modd gael rhai ar ochr arall y ffordd hefyd. Y Clerc wedi holi pam nad ydynt yn defnyddio cwmniau lleol i gwblhau'r gwaith, heb dderbyn ymateb.
- 3.8** Tipio anghyfreithlon ar hyd lon Dinas – y Clerc i ymweld a'r safle i weld os yw'r ysbwriel wedi'i clirio.
- 3.9** Gofalwr Neuadd Talgai wedi colli goriad i hysbysfwrdd Llandygai – nid oes oriad yn y swyddfa, y Clerc i gysylltu eto gyda'r cwmni'r hysbysfwrdd i holi am un arall. Dim ymateb gan y cwmni eto.
- 3.10** Problemau baw ci – y Cyng. Dafydd Owen wedi cysylltu a Peter Simpson, Cyngor Gwynedd i wneud cais am ddau bin newydd, un yn Sling ac un arall ar Ffordd Tanrhiw yn Nhregarth.
- 3.11** Beiciau Modur yn tresmasu ar Gwaun Gynfi. Cyng. Dafydd Owen wedi cysylltu gyda Dewi Wyn Owen, Cyngor Gwynedd i ofyn os oes bosib gael giat newydd yn y fynediad o Tan y Bwlch, i atal mynediad i'r beiciau yn y dyfodol. Cyng. Dafydd Owen i gael diweddariad ar y mater.
- 3.12** Adroddiad Llifogydd Mynydd Llandygai – Derbyniwyd ymateb gan Dewi Cullen, YGC. Adroddwyd Cyng. Dafydd Owen fod angen cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned ar gyfer pwyllgor llifogydd, dewisiwyd y Cyng. Lowri Jones i gynrychioli'r Cyngor. Y Cyng. Dafydd Owen a Lowri Jones a amlygu'r problemau ar y ffordd rhwng Llwybr Main a Tanybwlch oherwydd y dwr yn llifo oddi ar y Foel.
- 3.14** Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd gael drych traffig ar pen lon Llwybr Main o gyfeiriad Lon y Grug. Y Clerc i holi am ddiweddariad.
- 3.15** Nodwyd fod y Cyng. Iwan Hywel wedi casglu'r garreg filltir hanesyddol rhwng Felin Hen a mynedfa Pantycyff. Y Clerc wedi cadw'r darn yn swyddfa Partneriaeth Ogwen, a'r Clerc i gysylltu gyda'r adran priffyrdd.
- 3.16** Y Clerc wedi tynnu lluniau o'r ddwy lechan fawr gyda barddoniaeth arnynt ar dir Moelyci. Mae'r dwy lechan wedi ei orchuddio gyda ordyfiant. Y Clerc yn holi Moelyci amdanynt, a gofyn os oes modd ei ymddangos yn rhywle mwy weladwy ac ei bod yn drueni gweld nhw wedi'i cuddio.

#### **4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Ebrill 2021'

**Cyflwynwyd:** Ysgol Dyffryn Ogwen – Cais am rhodd – Swyddog Hwb Rygbi – Cytunwyd rhoi rhodd o £100.

**Cyflwynwyd:** Graffiti Tregarth – Y Cyng. Dafydd Owen i hysbysu Cyngor Gwynedd.

**Cyflwynwyd:** Cymuned Di-blastig – Trafodwyd y cynnwys a cytunwyd cefnogi'r ymgyrch ac fydd y Cyng. Iwan Hywel yn cynrychioli'r Cyngor ar y Grŵp Llywio.

**Cyflwynwyd:** Cynllun Llyfrgell Lloches Bws Mynydd Llandygai – cais i rhoi ag ariannu shilfoedd a fainc yn y lloches. Y Cyng. Dafydd Owen i wneud ymholiadau gyda Cyngor Gwynedd cyn gwneud penderfyniad.

## 5. Prydles Canolfan Tregarth

Nid oes prydles mewn lle rhwng Cyngor Gwynedd ac y Cyngor Cymuned, nid oedd y Cyngor Cymuned yn fodlon cymeryd y brydles newydd yn 2018 oherwydd y problemau parhaus gyda'r draeniau. Cytunwyd y bydd y Cyngor yn edrych i fewn i gael prydles newydd gyda Cyngor Gwynedd, ond i nodi yn glir fod y Cyngor Cymuned ddim yn fodlon cymeryd y cyfrifoldeb am y draeniau a'r llifogydd. Y Clerc i edrych os oes gan Partneriaeth Ogwen unrhyw dempled o brydles, a'i ddanfôn ymlaen at bwyllgor y Ganolfan. Cytunwyd i gadw'r eitem hon ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

## 6. Gwaith y Mis

- 6.1 Adroddwyd Cyng. Mair Pierce fod cylfert ger fynedfa Parc Meurig wedi blocio – y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.
- 6.2 Y Cyng. Dafydd Owen i ofyn i'r contractwyr lanhau ogwmpas yr Ganolfan cyn yr etholiad.
- 6.3 Llwybrau wrth ochr Moelyci yn ofnadwy o wlyb – y Cyng. Dafydd Owen i hybysu'r Swyddog Llwybrau, Cyngor Gwynedd.
- 6.4 Bin halen yn Dob a dau bin ar yr Ocar wedi torri, y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.
- 6.5 Y Clerc i ofyn wrth Cyngor Gwynedd am amserlen toriadau'r glaswellt, ac i holi'r cyn-gerlc os yw'r Cyngor wedi bod yn talu am toriadau ychwanegol.

## 7. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

**Canolfan Tregarth** – Adroddwyd y bydd tu allan i'r Ganolfan yn gael ei baentio. Hefyd, nodwyd fod y Pwyllgor wedi gael rhywun yno i edrych ar wella'r acwsteg.

## 8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

- 9.1 Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Mawrth. Derbyniwyd yr adroddiad.
- 9.2 Rheoli Risg: y Clerc i gylchredeg y cofrestr risg yn chwarterol a'i hadolygu yn ystod y cyfarfod.

## 10. Taliadau

Awdurododwyd y taliadau canlynol:

Zurich Municipal	Yswiriant y Cyngor	£485.54
Trysor	Cyfieithu ar y pryd – Cyfarfod mis Mawrth	£52.50

## 11. Penderfyniadau Cynllunio C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai  
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer  
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ  
fforddiadwy  
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

## C18/0767/25/LL

Coed Wern, Glasinfryn  
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety,  
adeilad derbynfa, a chreu 2  
nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio  
ffyrdd mynediad cysylltiedig a

meysydd parcio, tirweddu a gwaith cysylltiedig eraill.

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0079/16/DT**

Bryn Celyn, Tal Gae, Tregarth  
Cais deiliad ty ar gyfer dymchwel adeiladau allanol to un-codiad, codi estyniad ochr/cefn unllawr a man newidiadau i'r eiddo

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0190/16/LL**

Ysgubor Y Gelli Lôn Y Wern, Tregarth  
Newid defnydd o modurdy i lety gwyliau hunanwasanaethol

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0168/16/LL**

Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda  
Codi adeilad ar gyfer cynnal a chadw cerbydau a storio cyfarpar offer

**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau.

**C21/0249/16/DT**

3, Bron Ogwen, Tregarth  
Estyniad deulawr yn y cefn

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

## **12. Ceisiadau Cynllunio**

**NP3/16/L3F**

**Tai Newyddion, Nant Ffrancon**

Trosi, newid defnydd, dymchwel penty ac estyniad o storfa i greu anecs i ymwelwyr

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

## **12. Unrhyw fater brys arall**

Dim.